OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 7 (Cy.3)

ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2008

Gwnaed - - - -	*7 Ionawr 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*8 Ionawr 2008*
Yn dod i rym - -	*2 Chwefror 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 62, 143(3) a (4A) a 146(6) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 1 a 2(2) o Atodlen 9 iddi(**1**) ac adran 26(3) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(**2**), ac a freiniwyd bellach yng Ngweinidogion Cymru(**3**).

Enwi, cymhwyso a cychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) (Diwygio) 2008 a deuant i rym ar 2 Chwefror 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Diwygio Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993

2.—(1) Mae Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Hysbysiadau Galw am Dalu) (Cymru) 1993(**4**) wedi'u diwygio fel a ganlyn.

(2) Ym mharagraff 1 o Ran 1 o Atodlen 2, yn y nodyn sy'n dwyn y pennawd "Unoccupied Property Rating", yn lle "50 per cent", rhodder "100 per cent".

(3) Ym mharagraff 1 o Ran 2 o Atodlen 2, yn y nodyn sy'n dwyn y pennawd "Ardrethu Eiddo Di-ddeiliad", yn lle "50 y cant", rhodder "100 y cant".

(**1**) 1988 p.41.
(**2**) 1993 p.38.
(**3**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.
(**4**) O.S. 1993/252, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1995/284, 1996/311, 1996/1880, 1997/356, 1998/155, 2000/793 (Cy.30), 2003/414 (Cy.59), 2005/256 (Cy.22), 2006/3392 (Cy.311) a 2007/3343 (Cy.295).